# Cyngor Cymuned Ganllwyd

# Cofnodion cyfarfod Nos Fercher Mai 10fed 2017.

**Presennol.**

Cyng Chris Dixon,Cyng D.Morris,Cyng S.Roberts, Cyng G.Edwards

**Ymddiheuriadau**

Cyng G.Jones Cyng P.Jenkins Cyng G.Hughes. Cyng C.Edwards

**Datgan diddordeb.**

Neb

**Cofnodion cyfarfod Ebrill 12fed 2017**.

Cynnigwyd yn gywir gan Cyng Dixon ac eilwyd gan Cyng Roberts.

**Materion yn codi.**

Rali Meirion—Mae Rhys Jones swyddog y rali wedi rhoi gwybod i'r Cyngor fod y difrod yn ardal Maes yr Eglwys Wen wedi cael ei atgyweiro. Wedi archwilio'r safle mae'r cyngor yn fodlon fod y gwaith atgyweirio wedi cael ei wneud.

Toiled cyhoeddus y Ganllwyd—Mae'r contract sydd wedi ei lofnodi gan y Cyngor wedi ei ddychwelyd i Gyngor Gwynedd. Nid yw'r cyngor cymuned wedi derbyn anfoneb am £250 sef rhan o'r costau i'r toiled i barhau yn agored.

Y Bothy- Cyng Dixon wrthi'n cadarnhau pwy yw'r cyswllt re Penthros Isaf. Ar ol cael y wybodaeth fe fydd Cyng Daixon yn ysgrifennu atynt i drafod materion yn cynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Cost archwilio—Mae'r mater yma yn parhau.Mae Mr Deryck Evans (Swyddfa Archwilio Cymru) yn cynnal ymchwiliadau hefo'r BDO ynglyn a costau archwilio'r cyngor. Nid oes ateb wedi ei dderbyn.

Clerc i gysylltu a Mr Evans erbyn cyfarfod mis Mehefin.

Rhoddion—Mae'r sieciau wedi cael eu dosbarthu i'r sefydlau amrywiol.

**Adroddiad Cynghorwr Sir**

Ddim yn bresennol.

**Cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus.**

Derbyniodd y cyngor ebost gan Liz Haynes yn cadarnhau y bydd y cyngor cymuned yn cymeryd rhan yn y cynllun cynnal a chadw y flwyddyn yma.

Bydd cyngor Gwynedd yn darparu £577 tuag at gost y gwaith mae'r cyngor wedi penodi gwariant i fynny at £750 pan yn adolygu'r cyllideb.

Cynghorwyr i drafod pa lwybrau sydd angen gwaith cynnal a chadw yn cyfarfod mis Mehefin.

**Materion ariannol y mis.**

Cyson banc Ebrill 2017

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: | £5999.81 |
| Derbyniwyd: | |
| Praesept | £1350.00 |
| Taliadau: Cyflog/Paye | £100.00 |
| Diwedd y mis /flwyddyn ariannol | £7249.81 |

Cyngor yn cytuno fod y manylion uchod yn gywir.

Derbyniwyd anfoneb gan Fwrdd y neuadd am £165.00

Clerc ar Cadeirydd wedi arwyddo ffurfleni yn ymwneud ar Awdit 2016-17 (Annual return year ended 31st March 2017). Bydd Mr Roberts (archwilydd) yn astudio'r ffurflenni yn ystod awdit fewnol cyn gyrru'r ffurfleni ymlaen i gwmni y BDO.

Llythyrau & e-byst.

Cadarnhau y bydd rhaid i bob cynghorwr llenwi ffurflen "Datganiad derbyn swydd" erbyn cyfarfod mis Mehefin 2017.

Clerc i ddosbarthu'r ffurflen uchod.

Parc Cenedlaethol—Bydd cyfarfod blynyddol hefo'r cynghorau cymuned yn ymwneud a'r cynllun datblygu lleol yn cael ei gynnal yn Coed y Brenin ar y 13eg o Mehefin 2017.

Bydd Cyng Dixon yn mynychu'r cyfarfod.

Parc Cenedlaethol- Cytunodd y cyngor i dderbyn cynnig y Parc Cenedlaethol ar gyfer hyd at 4 coeden afalau (am ddim).

Mae'r cyngor yn awyddus i blannu'r coed yn y gymuned-syniadau gan y cynghorwyr ynglyn y coed i'w trafod yn y cyfarfod nesaf.

Clerc i gwblhau holiadur yn ymwneud a oriau gwaith a chyflogau (ASHE) ac danfon y ffurflen i swyddfa ystadegau cenedlaethol.

Heddlu Gogledd Cymru- derbyniwyd e-bost gan PCSO Jones yn cadarnhau fod yr heddlu yn cadw golwg ar broblem moduron yn gor-yrru yn y pentref.

Bydd Rh Helen Gallop (Dolgellau) yn cymeryd drosodd y swydd o bennaeth tim plismona lleol Meirionydd.

Debyniwyd nodyn o ddiolch gan Sioe Ganllwyd a Neuadd y Pentref am yrhoddion ariannol mis diwethaf.

<u>Unrhyw fater arall.</u>

Cyng Dixon yn tynnu sylw i'r ffaith fod gwaith ar drwsio ffosydd a.y.b wedi dechrau yn ardal Beech Road.

Mae eisiau 10 marshall ar gyfer ras yn Coed y Brenin dydd Sadwrn 17eg o Fehefin 2017.

Os yr ydych yn fodlon helpu - enwau i Cyng D.Morris mor fuan a phosib os gwelwch yn dda.

Clerc i drefnu cyfarfod partneriaeth Llwybrau cyhoeddus erbyn mis Mehefin 2017